

# Ysgol Botwnnog

## Newyddion

Mae mis Ionawr wedi bod yn un prysur iawn yma yn Ysgol Botwnnog gyda llawer o weithgareddau a digwyddiadau. Roedd y Clwb Garddio wedi derbyn grant gan Ymddiriedolaeth Edina wedi ei anelu i wella cynefin bywyd gwyllt.

Penderfynwyd defnyddio'r arian i blannu gwrych o lwyni addas i gysgodi'r gwllau llysiâu rhag y gwynt ac i blannu mwy o amrywiaeth o goed ffrwythau. Gyda rhan o'r grant bu rhai o'r disgyblion yn adeiladu blychod nythu ar gyfer tir yr ysgol. Yn wir cawsant gystal hwyl arni fel eu bod wedi llwyddo i werthu'r rhai oedd dros ben i amaethwr lleol.



Marchnad Brynceir

Daeth yn amser i'r Clwb Ffermio werthu'r ŵyn oedd dros ben, a chafwyd ymweliad llwyddiannus â marchnad Brynceir lle gwerthwyd 8 o ŵyn am bris gweddol. Y cam nesaf fydd cyfrifo costau eu bwydo a darganfod os oedd elw ar ddiwedd y dydd.



Gweithdy gwleidyddol

Ymwelydd diweddar arall â'r ysgol oedd Ann Owen Williams, Swyddog Addysg y Cynulliad yma yng Ngogledd Cymru. Gan fod Caerdydd mor bell roedd Ann yn cynnal gweithdai i'r disgyblion o Flwyddyn 10 er mwyn iddynt gael blas ar sut mae'r Cynulliad yn gwneud eu gwaith ac yn dod i benderfyniadau. Yn ôl Adam Vale o Flwyddyn 10:

“Roedd yn ddiddorol, yn rhoi syniad i ni sut mae penderfyniadau yn cael eu gwneud. Gan fod y Cynulliad mor bell roedd yn brofiad da cael cymryd rhan mewn gweithgaredd fel hyn.”

Braf oedd estyn croeso'n ôl i'r ysgol i un o'n cyn ddisgyblion am wythnos o brofiad gwaith. Daeth Carys Coupe o Abersoch atom o Goleg Meirion Dwyfor i weithio yn yr adran Addysg Arbennig. Diolch iddi am ei chyfraniad a phob dymuniad da yn ei gyrfa.

## Chwaraeon



Elgan ac Ifan

Mae'r tymor yma wedi bod yn un llwyddiannus i rai o bêl-droedwyr yr ysgol. Mae Elgan Pugh o Flwyddyn 9 wedi ei ddewis i gynrychioli'r ysgol yn nhîm pêl-droed o dan 14 Gogledd Cymru. Bu Elgan yn aelod o'r tîm mewn gêm yn erbyn Ysgolion Tranmere yn ddiweddar a chawsant gêm gyfartal ddi-sgôr. Bob lwc i ti Elgan yn y gemau sydd i ddod gyda thîm Gogledd Cymru. Un arall sydd yn gwneud enw iddo'i hun yw Ifan Roberts, eto o Flwyddyn 9. Mae Ifan ar lyfrau ieuencid Everton ac yn teithio i Finch Farm ar gyrion Lerpwl, i faes ymarfer y clwb ar gyfer derbyn hyfforddiant fel rhan o academi Everton i ddisgyblion o dan bedairarddeg. Pob lwc i tithau yn y dyfodol Ifan. Gobeithio gweld dy enw ar restr tîm cyntaf Everton rhyw ddydd!

Mae Lili Owen, Bl 10 a Magi Hughes, Bl 11 wedi derbyn gwahoddiad i fynd ar gwrs hyfforddi hoci fel rhan o weithgareddau chwaraeon yn y gymuned. Llonyfarchiadau i'r ddwy ar gael eu dewis.

## Lori Ni



Tomos a Sophie

Ymwelodd 'Lori Ni' Cyngor Gwynedd â'r Ysgol yn ddiweddar a chafodd Blwyddyn 9 gyfle, mewn grwpiau bach i ddarganfod gwybodaeth a derbyn cyngor am faterion sydd o bwys iddynt hwy. Roeddynt yn cael gweld pa wasanaethau sydd ar gael yn lleol, ac ar y wê a hefyd cawsant gyfle i gymryd rhan mewn cystadleuaeth. Yn fuddugol roedd Tomos a Sophie a derbyniodd y ddau docyn 'I-tunes' fel gwobr.

## Y Gymdeithas Rien

Clwb Codi Arian – Nid yw'n rhy hwyr os ydych eisiau ymuno â'r Clwb Codi Arian am eleni. Mae ffurflenni ar gael o hyd yn y swyddfa. £12.00 y flwyddyn yw'r gost – gwobrau hael. Diolch am eich cefnogaeth.

## Codi Arian



Elen a Mrs Rhydderch

Yn ystod diwedd tymor diwethaf cymerodd yr Adran Saesneg a Blwyddyn 8 ran mewn darllen noddedig 'Readathon' gan lwyddo i godi bron i £600 tuag at Ymddiriedolaeth Roald Dahl i helpu plant gwael eu hiechyd. Llonyfarchiadau i bawb a gymerodd ran ac yn arbennig i Elen a gafodd wobwr am gasglu'r mwyaf o arian.

## Agor y Llyfrgell

Wedi rhoi holiadur i'r disgyblion mynegodd amryw bod angen ail-wampio'r Llyfrgell. Bellach mae'r Llyfrgell wedi cael côf o baent, (Diolch Melfyn) dodrefn newydd a charped newydd sbon. Ar y waliau ceir arddangosfa debyg iawn i'r 'Le Celf' yn y 'Steddfod Genedlaethol gyda disgyblion Blwyddyn 9 wedi cyfansoddi cerddi wrth ymateb i waith celf disgyblion TGAU. Dewch draw i weld eu gwaith yn gelf ac yn gerddi. Daeth Nia Gruffydd o Lyfrgell y Sir atom i ddioli'r llyfrau ac ar ôl yr holl waith penderfynwyd cael diwrnod i agor y Llyfrgell. Y nofelydd Bedwyr Rees ddaeth atom ac roedd yna reswm pahan iddo gael y gwahoddiad.

Roedd rhywun sy'n dymuno parhau'n ddi-enw wedi dweud ei bod yn 'warthus' bod disgyblion Blwyddyn 9 yn darllen llyfrau'r awdur am ei fod yn sôn am ymddygiad gwrth-gymdeithasol yn ei nofelau (Sbinia a Tisio Bet). Y gwir amdani yw fod ei nofelau yn hynod boblogaidd ac yn denu darllenwyr ffwl sbid. Cafodd Blwyddyn 9 amser difyr yn ei gwmmi a bu yntau yn sôn am sut mae'n cael syniadau i sgwennu a pham ei fod yn sgwennu. Daeth criw Heno i ffilmio'r digwyddiad a diolch i bawb am siarad mor groyw a difyr ar y rhaglen.

Bu Non, Rebeca, Shiwan ac Erin hefyd yn mynegi eu barn ar raglen 'Taro'r Post' am bwysigrwydd darllen ac yn egluro pa mor bwysig oedd darllen llyfrau Bedwyr Rees. Diolch i chi ddarllenwyr y Llanw ac eraill am ffonio'r ysgol a'u canmol am eu cyfraniadau.

Daeth y Cyngorydd Liz Saville Roberts i weld Dyddlyfrau Bl 8 wedi iddynt gael eu lansio gyda chymorth Daloni Metcalf ym mis Gorffennaf a daeth Anni a Tudur o 'Sdwnsh' i lansio Dyddlyfrau Bl 7. Dyma ddau fore difyr, yn llawn gweithgareddau amrywiol. Pwrpas y Dyddlyfrau yw ehangu'r diet sgwennu a chyflwyno gwaith yn chwaethus a diddorol.